

© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

# Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio Yr Wyddfa ac Ogwen ac Arfarniad o'r Dewisiadau

Gorffennaf 2020

Adroddiad Cryno

---

# Yr Wyddfa and Ogwen Transport and Parking Review and Options Appraisal

July 2020

Summary Report

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

eryri.llyw.cymru

# Adolygiad Trafnidiaeth a Pharcio Yr Wyddfa ac Ogwen ac Arfarniad o'r Dewisiadau

## Gorffennaf 2020
Adroddiad Cryno

Comisiynwyd Martin Higgitt Associates gan Bartneriaeth Yr Wyddfa i gynnal adolygiad o faterion trafnidiaeth a pharcio sy'n effeithio ar Yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen, gyda'r nod o ddatblygu strategaeth ar gyfer rheoli mynediad a pharcio yn yr ardal a'r cyffiniau.

Mae'r strategaeth hon yn cefnogi gweledigaeth hirdymor y Bartneriaeth ar gyfer Yr Wyddfa, yn ogystal â phwrpasau a dyletswydd ehangach Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o ddiogelu'r dirwedd, hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r ardal, a chefnogi lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.

Mae'r adroddiad yn datgan bod yr orddibyniaeth bresennol ar geir i gael mynediad at safleoedd prysur a adwaenir fel rhai 'pot mêl' allweddol a'r broblem parcio cronig ar adegau prysur o'r flwyddyn yn fethiant yng nghyd-destun pwrpasau craidd y Parc Cenedlaethol. Mae hefyd yn golygu bod cymunedau lleol a'r economi leol yn dioddef effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â lefelau niferoedd yr ymwelwyr, ac nid ydynt yn cael cymaint o fudd ag y gallant ei gael.

O asesu'r dystiolaeth gefndirol, ynghyd â'r ymgynghoriadau, mae consenswsclir nad yw 'gwneud dim byd yn opsiwn'. Yn wir, mae yna awydd i osod Yr Wyddfa ac Ogwen, ac Eryri / Gogledd Cymru yn fwy cyffredinol, fel enghraifft o dwristiaeth gynaliadwy. Bydd opsiynau amgen yn methu â mynd i'r afael â'r problemau cronig y mae'r Wyddfa ac Ogwen yn eu profi yn ystod y tymor gwyliau brig, yn ogystal â methu â mynd i'r afael â chyfeiriad polisi'r Parc Cenedlaethol a pholisi rhanbarthol a chenedlaethol.

# Yr Wyddfa and Ogwen Transport and Parking Review and Options Appraisal

## July 2020
Summary Report

Martin Higgitt Associates was commissioned by Yr Wyddfa Partnership to undertake a review of transport and parking issues affecting Yr Wyddfa and Ogwen Valley, with the aim of developing a strategy for managing access and parking in and around the area.

This strategy supports the Partnership's long-term vision for Yr Wyddfa, as well as Snowdonia National Park Authority's broader purposes and duty of protecting the landscape, promoting understanding and enjoyment of the area, and supporting the economic and social wellbeing of local communities.

The report states that the current over-reliance on cars to access key honeypot sites and the chronic parking problem at busy times of year is failing the National Park's core purposes. It also means that local communities and the local economy suffer negative impacts associated with visitor levels, whilst not receiving as much benefit as they could.

From the assessment of background evidence, together with the consultations, there is a clear consensus that 'doing nothing is not an option'. There is an appetite to position Yr Wyddfa and Ogwen, and Snowdonia / North Wales more generally, as a sustainable tourism exemplar. Alternative options will fail to address the chronic problems that Yr Wyddfa and Ogwen experience in the peak holiday season, as well as failing to address the policy direction of the National Park, regional and national policy.



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Bydd Dull Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy yn lleihau effaith amgylcheddol ymwelwyr ar y dirwedd warchodedig, ac ar yr un pryd yn lleihau'r problemau a chynyddu buddion twristiaeth i gymunedau a'r economi leol, gan wella profiad ymwelwyr a galluogi ystod fwy amrywiol o ymwelwyr i fwynhau'r ardal. Mae Gogledd Cymru ac Eryri mewn sefyllfa berffaith i ymateb i rai o'r 'tueddiadau-enfawr' tymor hwy mewn twristiaeth sy'n troi o amgylch dilysrwydd, gweithgaredd ac antur, ac eco-dwristiaeth.

Trwy farchnata a 'gosod' yr ardal yn gryf ar sail cymwysterau twristiaeth gynaliadwy, y weledigaeth hirdymor yw gwneud y tirlun arbennig yn fwy hygyrch i ymwelwyr nad ydynt yn defnyddio cerbydau, a galluogi'r rhai sy'n cyrraedd â cherbyd gael mynediad i'r ardal a'i hatyniadau drwy ddulliau amgen. Mae'n ceisio newid yr arferion cymdeithasol fel nad yw pobl yn disgwyl gyrru'n uniongyrchol i, a pharcio yn, ardal fewnol y dirwedd arbennig. Y man cychwyn hanfodol wrth fynd ati i lunio sut mae ymwelwyr yn teithio yw dylanwadu ar bobl yn y ffynhonnell (man cychwyn), cyn iddynt benderfynu sut y maent yn mynd i deithio. Bydd yr ardal yn cael ei marchnata'n gryf, ar lefel strategol, fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy, gyda neges glir bod yr ardal yn hygyrch heb gar a bod teithio heb gar yn bosibl pan fyddant yn cyrraedd yma. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol rhaid i'r seilwaith fod yn ei le yn gyntaf.

A Sustainable Tourism Approach will reduce the environmental impact of visitors on the protected landscape, at the same time as reducing the problems and increasing the benefits of tourism to communities and the local economy, whilst improving the visitor experience and enabling a more diverse range of visitors to enjoy the area. North Wales and Snowdonia are perfectly positioned to respond to some of the longer-term 'mega-trends' in tourism around authenticity, activity and adventure, and eco-tourism.

By strongly marketing and 'positioning' the area on sustainable tourism credentials, the long-term-vision is to make the special landscape more accessible to non-car based visitors and enable people arriving by car to access the area and it's attractions by alternative means. It seeks to change the social norms so that people no longer expect to drive directly to, and park in the inner area of the special landscape". A crucial starting point in shaping visitor travel is to influence people at source, before they decide how they are going to travel. The area will be strongly marketed, at a strategic level, as a sustainable tourism destination, with a clear message that the area is accessible without a car and that, once you are here, car-free travel is possible. In order to do this effectively the infrastructure must firstly be in place.

Mae'r adroddiad yn manylu ar nifer o fesurau trafnidiaeth i wireddu'r weledigaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion mewn perthynas â: rheoli parcio yn yr 'ardal fewnol' ac mewn pentrefi porth; tariffau; rheoli a gorfodi meysydd parcio; gwybodaeth a chyfathrebu; seilwaith gwefru cerbydau trydan; rheoli parcio ar y stryd a pharcio preswylwyr yn y pentrefi porth; gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, megis y rhwydwaith bysiau gwennol, cyfnewidfeydd â gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau pellter hir, gwelliannau rhwydwaith trafnidiaeth ehangach, a gwasanaethau trafnidiaeth ymatebol i'r galw o darddiad eraill; gweithrediad tacsis; mannau parcio coetsys (bysus); rheoli priffyrdd a thraffig; mentrau cerdded a beicio; a gwasanaethau cyflenwol eraill i wella profiad yr ymwelydd fel rhan o'r ethos o hyrwyddo mynediad cynaliadwy.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth ar sut olwg fyddai ar weithredu'r strategaeth ar lawr gwlad a sut y byddai preswylwyr a busnesau twristiaeth yn rhyngweithio â hi. Mae'n crynhoi rhai o'r elfennau allweddol a awgrymir ar gyfer y pentrefi porth sylfaenol - sef Llanberis, Betws-y-Coed, Beddgelert a Bethesda, a phentrefi eraill yn y rhanbarth. Awgrymir mesurau i geisio cael y budd mwyaf i drigolion, gweithwyr a busnesau mewn cymunedau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu barcio mewn safleoedd porth, lle mae yna fysiau aml, cost isel neu am ddim yn codi teithwyr;
- gwasanaeth bws gwennol trydan / hydrogen yn gweithredu ledled yr ardal;
- parcio yn yr ardal fewnol yn unig drwy gyfrwng trwyddedau arbennig neu archebu ymlaen llaw yn ystod y tymor prysuraf;
- mae parcio yn cael ei ehangu yn y pentrefi porth a / neu mewn lleoliadau Parcio a Theithio strategol wrth ddynesu at yr ardal; a
- Tocyn Ymwelwyr ar gyfer y rhanbarth cyfan i'w gyflwyno er mwyn hwyluso'r uchod.

The report details a number of transport measures to realise the Sustainable Tourism vision for the area. These include proposals in relation to: parking management in the 'inner area' and at gateway villages; tariffs; car park management and enforcement; information and communications; electric vehicle charging infrastructure; management of on-street parking and residents' parking in the gateway villages; public transport services, such as the shuttle bus network, interchange with rail and long-distance bus and coach services, broader transport network improvements, and demand responsive transport services from other origins; taxi operation; coach parking; highways and traffic management; walking and cycling initiatives; and other complementary services to enhance the visitor experience as part of the ethos of promoting sustainable access.

The report also provides information on what on-the-ground implementation of the strategy would look like and how residents and tourism businesses would interact with it. It summarises some of the suggested key elements for the primary gateway villages - namely, Llanberis, Betws-y-Coed, Beddgelert and Bethesda, and other villages in the region. Measures are suggested to seek the maximum benefit for residents, workers and businesses within local communities. These include:

- arrival by public transport or parking at gateway sites, where frequent, low-cost or free buses pick up;
- electric/hydrogen shuttle bus service operating throughout the area;
- parking in the inner area only through special permits or pre-booking during the high season;
- parking is expanded in the gateway villages and/or at strategic Park & Ride locations on approaches to the area; and
- a Visitor Pass for the entire region to be introduced to facilitate the above.



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Rhan ganolog o'r strategaeth yw bod cymunedau a busnesau yn cynorthwyo i ddylunio'r modd mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu ar y ddaear. Unwaith y cytunir ar egwyddorion y dull gweithredu, cynhelir ymarferion cynllunio gyda thrigolion a busnesau yn y pentrefi porth i ystyried y ffordd orau o gyflawni'r elfennau sydd a wnelo'r strategaeth ar lawr gwlad.

Byddai'r Dull Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy hwn yn trawsnewid sut mae'r ardal yn gweithredu a sut y'i canfyddir fel cyrchfan. Mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei danategu gan integreiddiad, y ddarpariaeth o wasanaethau newydd ac ail-raddio'r gwasanaethau sy'n bodoli'n barod. Mae galluogi i gynllun blaengar o'r fath i gael ei gyflawni yn gofyn am strwythurau llywodraethu priodol ac ail-feddwl y model economaidd y darperir gwasanaethau ynddo. Argymhellir model llywodraethu newydd sy'n gyfle i'r ardal, a Chymru yn gyffredinol, i fod yn arloesol. Byddai'r model hwn yn sefydlu corff annibynnol newydd i weithredu ar ran partneriaeth o sefydliadau allweddol (APCE, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), gydag atebolrwydd ffurfiol a gwneud penderfyniadau ar y cyd ar faterion strategol a buddsoddi sy'n ymwneud â mynediad a thrafnidiaeth. Mae'r adroddiad yn ystyried sut y gallai'r dull partneriaeth ffurfiol hwn weithio, gan gynnwys cwmpas pŵer, aelodaeth, gwneud penderfyniadau, rolau strategol a gweithredol, ac adnoddau.

A central part of the strategy is that communities and businesses help design the way in which the strategy is delivered on the ground. Once the principles of the approach are agreed, planning exercises will be undertaken with residents and businesses in the gateway villages to consider how best to deliver the strategy elements on-the-ground.

This Sustainable Tourism Approach would transform how the area functions and is perceived as a destination. The approach is underpinned by integration, provision of new services and a re-scaling of existing services. Enabling such progressive delivery requires appropriate governance structures and a re-think of the economic model in which services are provided. A new governance model is recommended which is an opportunity for the area, and Wales in general, to be pioneering. This model would establish a new, independent body working on behalf of a partnership of key organisations (SNPA, Gwynedd County Council, Conwy County Borough Council), with formal accountabilities and shared decision making over strategic issues and investment relating to access and transport. The report considers how this formal partnership approach could work, including scope of power, membership, decision-making, strategic and operational roles, and resourcing.



Mae trawsnewid mynediad a thrafnidiaeth hefyd yn gofyn am fodel economaidd newydd, Mae'r model arfaethedig wedi'i adeiladu ar syniadau sydd a wnelo integreiddio ac eglurder y cynnig i'r defnyddiwr terfynol. Y budd tymor hir fydd gallu cipio mwy o ffrydiau refeniw sy'n ariannu safon seilwaith a darpariaeth gwasanaeth sy'n llawer iawn gwell.

Mae angen i bartneriaid fod yn barod i gael meddwl agored er mwyn gweithio gyda'i gilydd i greu model economaidd gwahanol ar gyfer sut mae mynediad a thrafnidiaeth / cludiant ymwelwyr yn gweithio yn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae angen ymrwymo i newidiadau o ran y modd y mae'r model economaidd yn gweithio yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o faterion i helpu i arwain y trafodaethau hyn.

Transforming access and transport also requires a new economic model. The proposed model is built on ideas of integration and clarity of the proposition to the end user. The long term benefit will be greater capture of revenue streams that funds a much enhanced level of infrastructure and service provision.

Partners need to be prepared to be open minded to work together to create a different economic model for how visitor access and transport works in the National Park area. There needs to be a commitment to changes in how the economic model works in the medium- to long-term. The report outlines a number of issues to help guide these discussions.



Trwy gynyddu'r uchelgais y gobaith yw y gall y dull gweithredu hwn ddenu buddsoddiad a refeniw. Yn gyntaf, dylai'r dull gweithredu gipio mwy o wariant gan ymwelwyr, wrth i ymwelwyr gael eu cyfeirio at leoedd parcio yn y pyrth, defnyddio'r gwasanaethau ymwelwyr a threulio mwy o amser yn yr ardal a dod yn ymwybodol o fwy o atyniadau i ymweld â nhw. Yn ail, mae'r gwasanaeth Twristiaeth Gynaliadwy yn darparu gwell marchnata yn yr ardal, asgwrn cefn gwasanaethau cludo ymwelwyr a mecanwaith cyflawni ar gyfer bwrw ymlaen gydag arloesiadau yn yr ardal. Yn erbyn y cefndir hwn, y gobaith yw y gall cymunedau a busnesau lleol ddatblygu eu gwasanaethau gwerth ychwanegol eu hunain.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddwys ar fywydau a busnesau ledled y DU. Mae hyn wedi rhoi pwyslais ar bwysigrwydd twristiaeth i'r ardal ac yn union cyn y cyfnod clo ac ar ôl llacio'r cyfnod clo, fe ddangoswyd yr angen i reoli mynediad ymwelwyr i'r dirwedd ddynodedig. Mae hefyd wedi rhoi cipolwg ar y buddion i'r dirwedd ac i gymunedau yn sgil lleihau traffig a phwysau parcio ar yr ardal fewnol. Mae'r Dull Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy arfaethedig yn dangos sut y gellir rheoli mynediad ymwelwyr i'r ardal yn well yn y dyfodol er budd y dirwedd, cymunedau, busnesau, ac ymwelwyr, ac mae'n darparu uchelgais a chyfiawnhad dros fuddsoddi i helpu cymunedau lleol a'r economi i adfer o'r pandemig.

By raising the ambition it is hoped that this approach can draw in investment and revenue. First, the approach should capture greater visitor spend, as visitors are directed to gateway parking, making use of the visitor services and spend longer in the area and become aware of more attractions to visit. Second, the Sustainable Tourism service provides enhanced marketing of the area, a backbone of visitor transport services and a delivery mechanism for taking forward innovations in the area. Against this backdrop, it is hoped that local communities and businesses can develop their own value added services.

The COVID-19 pandemic has had a profound impact on lives and businesses across the UK. It has put into focus the importance of tourism to the area and immediately prior to lockdown and after lockdown was eased, has shown the need to manage visitor access to the designated landscape. It has also provided a glimpse of benefits to the landscape and to communities of reducing traffic and parking pressure on the inner area. The proposed Sustainable Tourism Approach shows a way in which visitor access to the area can be managed better in the future for the benefit of the landscape, communities, businesses, and visitors, and provides an ambition and justification for investment to help local communities and the economy recover from the pandemic.

# Strategaeth arfaethedig / Proposed strategy

| Yn syth 2020 | Tymor byr 2021 | Tymor canolig 2023 | Hirdymor 2025 |
|---|---|---|---|

## Llywodraethu

**Cytuno mewn egwyddor ac ennyn cefnogaeth i'r weledigaeth**

- APCE a phartneriaid
- Gyda rhanddeiliaid / cymunedau / busnesau
- Gyda Llywodraeth Cymru / Croeso Cymru

**Cytundeb Partneriaeth**

- Cynllunio trefniadau llywodraethu ac adnoddau
- Datblygu model economaidd

**Adnabod cyfleoedd ariannu a chyllido**

**Rhaglen strategol**

- Ymyriadau
- Rhaglen fuddsoddi
- Corff gweithredu cysgodol
- Comisiynu ymchwil a datblygu prosiectau
- Achos ar gyfer newid mewn pwerau (deddfwriaeth)

Lansio Corff Gweithredu llawn

## Gweithredu

Cynlluniau treialu

Camau cyflym ymlaen

Rhaglen strategol

- Rheolaeth parcio a gwasanaeth wennol wedi ei ymestyn
- Rhag archebu parcio yn yr ardal fewnol
- Rheolaeth ddeinamig i draffig s pharcio
- Llogi beiciau a beiciau trydan ar draws yr ardal
- Hyfforddiant Llysgenhadon
- Trafnidiaeth 'ateb i'r galw' o gyrchfannau gwyliau, meysydd awyr, cytrefi
- Cau ffyrdd dros dro
- Cyfleusterau a gwybodaeth ymwelwyr yn y canolfannau
- Strategaeth gyfathrebu ymwelwyr
- Gwelliannau i gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus yn y pyrth
- Gwefan ymwelwyr
- Ap ymwelwyr a Thocyn Mynediad
- Capasiti parcio yn y pentrefi porth
- Trydaneiddio'r fflyd bysiau
- Lleihad mewn cyfyngiad cyflymder

## Uchelgais

| Immediate Term 2020 | Short Term 2021 | Medium Term 2023 | Long Term 2025 |
|---|---|---|---|

## Governance

**Agree principles & build support for vision**

- SNPA & partners
- With stakeholders / communities / businesses
- With Welsh Government / Visit Wales

**Partnership Agreement**

- Plan new governance arrangements & resourcing
- Develop economic model

**Identify funding & financing opportunities**

**Strategic programme**

- Interventions
- Investment programme
- Shadow Delivery Body
- Commission research and development projects
- Case for any change in powers (legislation)

Full Delivery Body launched

## Implementation

Pilots

Quick wins

Strategic programme

- Parking controls & enhanced shuttle services
- Pre-booking of inner area parking
- Dymanic management of traffic and parking
- Area wide (e)bike hire
- Ambassador training
- DRT to holiday accomm, airports, conurbations
- Temp. road closures
- Visitor facilities & info at hubs
- Visitor comms strategy
- Pub. transport interchange improvements at gateways
- Visitor website
- Visitor app & Access Pass
- Parking capacity at gateway villages
- Electrification of bus fleet
- Speed limit reduction

## Ambition